



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b. DYDD LLUN, 24AIN EBRILL, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Alan Jones Evans  
Olaf Cai Larsen  
Llio Elenid Owen  
Elfed Williams

Elfed Wyn ap Elwyn  
Jina Gwyrfai  
Gwynfor Owen  
Meryl Roberts  
Sasha Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts  
Eirwyn Williams  
Sedd Wag - Annibynnol

Peter Thomas  
Gruffydd Williams

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cynghorydd Menna Jones, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 31 Ionawr 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TIM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL 12 - 17

Cyflwyno gwybodaetham gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG - ADRAN ECONOMI A CHYMUNED 18 - 23

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith.

## 7. DIWEDDARIAD AR WAITH HUNANIAITH - MENTER IAITH GWYNEDD 24 - 30

Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

## 8. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION

31 - 36

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac enghreifftiau o lwyddiannau'r Uned wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

# Eitem 4

## PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 30 IONAWR 2023

### YN BRESENNOL:

Y Cyngorwyr: Elfed Wyn ap Elwyn (Cadeirydd)  
Llio Elenid Owen (Is-Gadeirydd)

Menna Baines, Jina Gwyrfai, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Richard Glyn Roberts, Meryl Roberts, Peter Thomas, Elfed Wyn Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cyngorwyrdd Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

- Eitem 5: Y Cyngorwyrdd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Prytherch Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Uwchradd), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol).
- Eitem 6: Ian Jones (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol).
- Eitem 7: Carys Fôn Jones (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo).
- Eitem 8: Emyr Gwyn Edwards (Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth) a Nia Wyn Vaughan (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cyngorwyr Eirwyn Williams ac Olaf Cai Larsen.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYG

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryg.

### 4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 fel rhai cywir.

### 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Sicrhawyd bod Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd wedi cael ei wreiddio drwy holl waith yr Adran Addysg ac ysgolion y sir.
- Eglurwyd bod ymgynghoriad llawn wedi cael ei gynnal ar ddrafft o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Ymhelaethwyd bod y CSGA yn weithredol ers mis Medi 2022. Eglurwyd y byddai'n cael ei fonitro'n gyson gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru a bod yr adran yn mynd i ddefnyddio'r cynllun fel dogfen fyw er mwyn sicrhau bod sefyllfa unigryw Gwynedd yn cael ei adlewyrchu ynddo.
- Tynnwyd sylw penodol at fyd rhithiol 'Aberwla' fel darpariaeth arloesol y Gyfundrefn Addysg Drochi. Bu i swyddogion Llywodraeth Cymru ymweld â'r safle trochi newydd ym Mangor yn ddiweddar i weld y dysgwyr a oedd yn newydd-ddyfodiad yn defnyddio cyfarpar rhithwir er mwyn caffael y Gymraeg drwy fynychu archfarchnad rithwir Aberwla. Canmolwyd y dull cyfoes a blaengar o godi hyder plant i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol, fyddai'n eu galluogi maes o law i ddefnyddio'u sgiliau yn y gymuned. Canmolwyd staff y ganolfan drochi am eu gwaith arbennig ar y prosiect newydd yma.
- Yng nghyd-destun recriwtio, nodwyd fod rhai heriau recriwtio yn rhai o wasanaethau'r Adran megis arlwygo a glanhau, a bod problemau recriwtio athrawon ar gyfer pynciau penodol mewn ysgolion uwchradd yng Ngwynedd, ond pwysleisiwyd fod yr heriau recriwtio athrawon yn her genedlaethol.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Gofynnwyd a oes gan rieni'r hawl i fynnu bod addysg eu plant yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Saesneg, gan eithrio Cymraeg fel cyfrwng dysgu. Nodwyd y byddai hynny'n gallu bod yn niweidiol i allu'r disgyblion rheiny i dderbyn swydd yn eu hardal leol oherwydd diffyg yn eu sgiliau Cymraeg.

- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Addysg ei bod hi'n rhannu'r pryder ond yn derbyn bod amryw o resymau pam fod rhieni yn gofyn i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.
- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd y Pennaeth Addysg bod modd i ddisgyblion dderbyn rhannau o'u haddysg drwy gyfrwng y Saesneg o dan y cwricwlwm newydd ac yn unol a'n polisi iaith ni yma yng Ngwynedd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn hyderus ac yn hyfedr yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Ymhelaethwyd bod yr ymholiad hwn yn codi gan rieni o dro i dro, a bod swyddogion yr Adran a holl athrawon y Sir yn trafod gyda rhieni er y manteision o dderbyn addysg ddwyieithog, gyda'r gobai'th y byddent yn fodlon dilyn yr arweiniad hwnnw. Nodwyd bod yr adran wedi gweld cynnydd yn niferoedd y rhieni sy'n fwy brwdfrydig i ddysgu Cymraeg fel oedolion ar ôl gweld cynnydd eu plant wrth ddysgu'r Gymraeg.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod Llywodraeth Cymru wedi gosod gwaelodlin ar faint o addysg sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi ei osod oddeutu 60% ar hyn o bryd, ond bod staff ysgolion Gwynedd yn ymwybodol bod disgwyliad i'r gyfradd yng Ngwynedd fod yn llawer uwch na hynny ac mae ysgolion yn llwyddo i gynnal canran uchel iawn o addysg plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd pryder mai 40.73% o ysgolion Gwynedd yn unig oedd wedi cwblhau asesiadau iaith. Credir ei fod yn bwysig gwybod lefelau sgiliau ieithyddol holl staff ysgolion. Holiwyd pa fesurau sydd gan yr adran er mwyn sicrhau bod gan staff ysgolion gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

- Esboniodd y Pennaeth Addysg bod hunanasesiadau sgiliau ieithyddol yn digwydd yn barhaus o fewn ysgolion. Er hyn, cadarnhawyd bod trafferthion recriwtio yn golygu nad oes gan holl aelodau staff sgiliau cryf yn y Gymraeg. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda'r aelodau staff hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gwella eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg, a gwneir hyn drwy gefnogaeth hyfforddiant.

- Derbyniwyd bod canran y staff oedd wedi cyflawni'r hunanasesiad (40.73%) yn isel a bydd yr adran yn ymdrechu i sicrhau bod mwy o staff ysgolion yn cyflawni'r hunanasesiad yn y dyfodol.

Holwyd faint o blant Gwynedd sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg.

- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd y Pennaeth Addysg bod sefyllfa'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Mae hyn wedi arwain at gynllun i gynyddu'r Gymraeg a ddefnyddir mewn dwy ysgol uwchradd o fewn y sir. Ymhelaethwyd bod yr adran yn buddsoddi mewn ysgolion er mwyn cael adnoddau Cymraeg mewn ardaloedd ble mae canran siaradwyr y Gymraeg yn is na chyfartaledd y Sir.
- Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg bod y cwestiwn hwn yn un anodd i'w ateb oherwydd bod y cwricwlwm newydd wedi cael ei gyflwyno sy'n arwain at ddarpariaeth addysg ddwyieithog yn unol a'r polisi iaith fel y trafodwyd eisoes.
- Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol bod gwybodaeth am ffigyrau darpariaeth addysg yn y blynyddoedd diwethaf yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ond nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto. . Gobeithir sicrhau diffiniadau o addysg Gymraeg, addysg Saesneg ac addysg ddwyieithog er mwyn sicrhau bod y ffigyrau a gyflwynir yn gywir. Bydd trafodaeth bellach ar y mater pan fydd y data wedi cael ei gasglu.

Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd y Gymraeg fel iaith lafar yn y dosbarth. Cydnabuwyd bod llawer o bynciau yn defnyddio llyfrau, offer a gwefannau Saesneg er mwyn cyflwyno'r addysg ond teimlwyd bod y defnydd o'r Gymraeg tu mewn i'r dosbarthiadau yn angenrheidiol.

Gofynnwyd i'r swyddogion am eu syniadau ar gyfer sicrhau bod darparwyr sy'n defnyddio tir ysgolion er mwyn chwaraeon ac ati, yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlwyd bod hyn yn ddull o sicrhau bod disgyblion yn clywed yr iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol y tu hwnt i'r dosbarth a hefyd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

- Mewn ymateb i'r ymholiad sicrhauodd y Pennaeth Addysg bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr yn defnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle.
- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol bod sgysiau wedi cael eu cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth penaethiaid ynglŷn â'r disgwyliadau pan fo trydydd parti yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol. Gobeithir atgyfnerthu'r gweithdrefnau hyn gyda phenaethiaid yng nghyd-destun y Siarter Iaith yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod plant yn elwa o'r digwyddiadau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd bod niferoedd disgyblion sy'n cwblhau pum pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng 5% ers CSGA 2016. Yn sgil hyn, gofynnwyd sut fydd yr adran yn mesur eu bod yn cyrraedd targedau CSGA presennol. Holwyd hefyd os oedd Fforwm Iaith wedi cael ei ddatblygu gan yr adran.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod y Fforwm Iaith Addysg wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod yr Adran yn cyrraedd targedau'r CSGA yn llwyddiannus. Cyfaddefwyd bod yr Adran wedi cael trafferthion i sicrhau hyn yn ystod y cyfnodau clo Covid-19 gan nad oedd y disgyblion yn gallu dod i'r ysgol i dderbyn eu haddysg. Er hyn, mae holl ysgolion y sir yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod y lefelau hyn yn codi unwaith eto. Mae cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn aelodau o'r Fforwm Iaith Addysg, a bydd modd iddynt adrodd yn ôl yn anffurfiol ar waith y Fforwm gan roi sicrwydd o weithrediad y CSGA gan yr Adran.
- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol bod cyfarfod cyntaf y Fforwm Iaith Addysg wedi cael ei gynnal ac mae sicrhau bod y sir yn llwyddo i gyrraedd targedau'r CSGA yn un o'u meysydd gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod yr adran yn ganolog i hybu'r Gymraeg o fewn y Cyngor.
- Datganwyd bod 98.3% o weithlu'r adran yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd. Manylwyd bod 95.1% o holl staff yr adran wedi cwblhau'r hunan asesiad iaith. Credir bod hyn yn dda iawn gan fod 66 aelod o staff newydd wedi cael eu penodi o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Adroddwyd bod yr adran yn arwain ar dri o brosiectau blaenoriaeth y Cyngor.
- Cydnabuwyd bod yr adran wedi derbyn heriau yn ddiweddar.
- Eglurwyd bod yr adran yn gweithio er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio mewn contractau caffael, dylanwadu ar systemau cynlluniau gweithlu a chysylltu gyda sefydliadau allanol i Wynedd a Chymru o fewn y maes cofrestru ac arwyddo dadleniadau troseddol er mwyn sicrhau darpariaeth ddwyieithog.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Gofynnwyd a yw'r uned gyfreithiol yn rhan o'r adran.

- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol nad ydi'r gwasanaeth cyfreithiol yn rhan o'r Adran.

Canmolwyd yr adran am eu gwaith yn ymwneud ag enwau lleoedd Cymraeg, a holwyd os oes modd cydweithio â Google Maps er mwyn iddynt ddefnyddio'r enwau Cymraeg ar gyfer ardaloedd y Sir.

- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd yr Ymgynghorydd Iaith nad yw'r adran wedi llwyddo i annog Google i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg eto gan fod cwmnïau o'r fath yn cael eu gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau. Er hyn, cadarnhawyd bod yr adran yn cydweithio gydag Arolwg Ordnans (Ordnance Survey) er mwyn iddynt ddefnyddio enwau Cymraeg ar fapiau. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn gadarnhaol hyd yma ond mae'n debygol bydd hyn yn brosiect parhaus er mwyn cael cysondeb o fewn eu mapiau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN TAI AC EIDDO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Tai ac Eiddo a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd bod yr adran yn delio gyda nifer o wasanaethau rheng flaen megis digartrefedd, ffoaduriaid a chyflenwad tai. Esboniwyd bod materion corfforaethol i'r adran hefyd megis glanhau a diogelwch y swyddfeydd. Golyga hyn bod yr adran yn ymwneud â llawer iawn o bobl ac yn falch o adrodd bod y gwasanaethau hyn i gyd yn cael eu cynnig yn Gymraeg / yn ddwyieithog.

- Cadarnhawyd bod nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r adran yn dod o wahanol gefndiroedd ac yn aml iawn gydag anghenion penodol neu'n dioddef o straen. Teimla'r adran bod cyfathrebu gyda defnyddwyr yn eu dewis iaith yn hanfodol ac mae'r adran yn falch o lwyddo i wneud hynny.
- Adroddwyd bod amser ac ymdrech wedi bod gan yr adran i gynorthwyo pobl drwy'r sefyllfa bresennol yn Wcráin. Mae'r adran wedi llwyddo i sefydlu cannoedd o bobl yn y sir am gyfnod er mwyn rhoi lloches iddynt.
- Mynegwyd bod 94% yn cyrraedd lefel dynodiad iaith eu swydd, gyda'r mwyafrif helaeth o'r gweithlu wedi cwblhau'r hunanasesiad. Rhannwyd balchder bod hyn yn gynnydd o 67% ers Ionawr 2022. Cadarnhawyd bod 6 aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ieithyddol.
- Manylwyd bod yr adran yn credu bod y Polisi Tai Cyffredin, sy'n rhoi blaenoriaeth am dai cymdeithasol i unigolion â chysylltiad at Wynedd yn sicrhau bod pobl leol yn gallu byw yn eu cymunedau. Credir bod hyn yn lleihau mudo a symudedd sy'n cael ei nodi fel bygythiad i'r Gymraeg o fewn y Cynllun Hybu'r Gymraeg. Ymhelaethwyd bod 96% o osodiadau tai cymdeithasol wedi mynd i bobl â chysylltiadau lleol rhwng Medi 2021-22.
- Soniwyd bod argyfwng tai yn yr ardal ar hyn o bryd ac mai nod y Cynllun Gweithredu Tai yn sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cymunedau drwy amryw o gynlluniau megis Cynlluniau Datblygu Tai Ein Hunain a chynlluniau prynwyr tro cyntaf.
- Rhannwyd balchder bod systemau cyfrifiadurol yr adran ar gyfer Cynllun Opsiynau Tai.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Yn sgil cymal yn yr adroddiad yn nodi gofynion statudol i hysbysebu yn Saesneg (yn ogystal a Chymraeg) nododd rhai aelodau'r Pwyllgor y gallai hyn arwain at roi contractwyr Cymraeg o dan anfantais.

- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo bod hysbysebu'n Saesneg yn ofyniad statudol sy'n cael ei roi ar yr adran. Er hyn, pwysleisiwyd bod yr adran yn hysbysebu yn ddwyieithog yn aml.
- Eglurwyd o fewn Fframwaith y Cyngor bod Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn cael ei rannu gyda'r cwmnïau yn dilyn derbyn pob cais am waith. Mae'r adran yn clymu' cwmnïau i ofnion ieithyddol Cymraeg o fewn y gwasanaeth maent yn ei ddarparu.
- Yn dilyn cais, cytunodd Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo i rannu'r gofyn statudol a proffiliau ieithyddol contractwyr yr adran gyda'r aelodau.

Gofynnwyd a yw'r adran yn gallu darparu gwybodaeth am faint o bobl sy'n aros am dai cymunedol sy'n meddu â sgiliau ieithyddol Gymraeg ac ystyriwyd os yw'r adran yn gallu darparu gwybodaeth benodol am Ddwyfor, Arfon a Meirionnydd er mwyn gallu edrych os yw pobl yn aros yn eu cymunedau lleol neu'n symud i rannau gwahanol o'r Sir.

- Mewn ymateb i'r ymholiad mynegodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo fe fyddai'r adran yn cadarnhau ffigyrau diweddaraf rhestrau aros am dai gydag aelodau'r Pwyllgor mor fuan â phosibl.
- Mewn ymateb i'r ymholiad ieithyddol, cadarnhaodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo nad ydi'r adran yn gofyn i unigolion sy'n ymgeisio am dŷ os ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Pwysleisiwyd byddai'r adran angen arweiniad cyfreithiol cyn ychwanegu gofyniad ieithyddol wrth ymgeisio am dai, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw reoliad neu statud yn cael ei dorri.

Gofynnwyd am esboniad o beth oedd 'cysylltiad lleol' yn ei olygu yng nghyd destun gosod tai cymunedol, ac a oes modd gosod amod ieithyddol neu eu bod wedi derbyn eu haddysg yng Ngwynedd, wrth i bobl ymgeisio am dŷ cymunedol.



- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo mai'r Cyngor sydd wedi diffinio beth yw ystyr y gair 'lleol' wrth greu'r polisi a hynny mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Bu i ddiffiniadau mwy caeth gan y Cyngor gael ei wrthod gan y Llywodraeth.
- Ymhelaethwyd nad oedd modd gosod amod ieithyddol o fewn y polisi bryd hynny. Credai nad ydi'r sefyllfa wedi newid ers i'r polisi gael ei sefydlu ond nododd y byddai'n ymholi ymhellach.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â Phrosiect Cynllun Gweithredu Tai.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Adran Tai ac Eiddo bod y prosiect hwn wedi cael ei ddatblygu ers iddi dderbyn y swydd er mwyn sicrhau rheolaeth gref o'r gwaith. Cadarnhawyd bod yr adran yn edrych ar dai cymunedol sydd wedi cael eu gwerthu gydag amodau bod meddianwyr y tai yn y dyfodol yn drigolion lleol. Ymhelaethwyd bod yr adran yn casglu data ar y pwynt hwn ac yn sicrhau bod unrhyw bryniannau yn y dyfodol hefyd yn mynd i drigolion lleol.

Ar derfyn y drafodaeth, datganodd y Cynghorydd Gwynfor Owen nad oedd yn cytuno gyda'r awgrymiad o osod amod ieithyddol ar ymgeiswyr tai cymunedol. Credai hefyd ei fod yn annheg gosod amod bod rhaid i ymgeiswyr tai cymunedol dderbyn canran o'u haddysg yng Ngwynedd.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **8. CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2021 – YR IAITH GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Ymchwil a Gwybodaeth ac Uwch Swyddog Ymchwil a Dadanseoddeg. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd bod y Cyfrifiad diweddaraf wedi cael ei gynnal ar 21ain o Fawrth, 2021, gyda'r canlyniadau manwl am yr iaith Gymraeg yn cael eu cyhoeddi ar 6ed Rhagfyr 2022.
- Eglurwyd bod y cwestiwn canlynol yn cael ei ofyn fel rhan o'r cyfrifiad a dyma ddefnyddiwyd fel sail i'r data:
  - “Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen, neu ysgrifennu Cymraeg?
    - Deall Cymraeg Llafar
    - Siarad Cymraeg
    - Darllen Cymraeg
    - Ysgrifennu Cymraeg
    - NEU ddim un o'r uchod”
- Cadarnhawyd bod canran siaradwyr Cymraeg (a oedd yn 3 oed neu hŷn) yng Ngwynedd wedi gostwng o 65.4% yn 2011 i 64.4% yn 2021. Nodir bod hyn yn llai na'r gostyngiad cyffredinol yn siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sydd yn 1.2%.
- Adroddwyd bod canran siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi gostwng pob degawd ers 1981 ac yn yr amser hynny mae'r canran wedi gostwng 12.2%.
- Datganwyd mai'r grŵp oedran gyda'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw'r grŵp 3 i 15 oed. Er hyn, cadarnhawyd bod gostyngiad o 2.9% o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn.
- Eglurwyd bod cyfraddau siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn debyg iawn i'r patrymau a welir yng Nghymru yn gyffredinol. Nodwyd mai'r unig grŵp oedran sy'n wahanol i batrwm cenedlaethol ydi bod cynnydd o 0.6% o siaradwyr Cymraeg rhwng 50 a 64 oed yng Ngwynedd ond gostyngiad o 0.7% sydd dros Gymru'n gyffredinol.
- Manylwyd ar yr 13 ardal o fewn Gwynedd gan gadarnhau mai Dalgylch Caernarfon sydd â'r canran fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg (85.3%) a'r niferoedd lleiaf i weld yn ardal Bro Dysynni (38.6%). Eglurwyd bod lleihad mewn nifer o siaradwyr Cymraeg i'w gweld

mewn 10 ardal, gyda chynnydd mewn nifer siaradwyr yn ardaloedd Pen Llŷn, Dalgylch Bangor a Bro Dysynni yn unig.

- Cadarnhawyd bod y pum gymdogaeth gyda'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg wedi ei leoli yn ardal Arfon ac mae'r pum cymdogaeth gyda'r lleiaf o siaradwyr i'w gweld yn ardal Bangor.
- Adroddwyd mai Llanbedrog ac Abersoch yw'r gymdogaeth gyda'r cynnydd mwyaf o siaradwyr Cymraeg, ble mae'r gostyngiad mwyaf i'w weld yn ardal Hendre, Bangor.
- Nodwyd bod 7.1% o'r boblogaeth wedi cadarnhau eu bod yn deall Cymraeg llafar ond methu eu siarad. Mae hyn yn uwch na chyfradd Cymru o 5.2%. Cadarnhawyd mai'r gymdogaeth gyda'r nifer fwyaf o bobl yn deall Cymraeg llafar ond methu ei siarad oedd cymdogaeth Marchog.
- Adnabuwyd cymdogaeth Peblig, Caernarfon fel y gymdogaeth ble roedd y nifer fwyaf o bobl yn gallu siarad Cymraeg ond ddim ei ddarllen na'i ysgrifennu.
- Esboniwyd bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos bod 2.3% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg ond methu ei ddarllen nac ei ysgrifennu. Mae'r gyfradd yma ar gyfer Gwynedd yn 5.4%.
- Pwysleisiwyd bod gwybodaeth fanylach yn cael ei ryddhau ar lefel wardiau, a bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn dadansoddi'r canlyniadau.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Mynegwyd siomedigaeth bod 37 o'r 71 cymdogaeth gyda llai na 70% o siaradwyr Cymraeg.

Gofynnwyd sut mae'r cymdogaethau a welir yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad yn cael eu pennu, gan nad ydynt o reidrwydd yn bentrefi/cymunedau sy'n ymylu ei gilydd.

- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth mai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n pennu'r ardaloedd. Ystyriwyd bod rhai ardaloedd wedi cael eu grwpio mewn ffordd benodol i gyd fynd â ffiniau wardiau'r Cyngor, ond bod ffiniau wardiau wedi cael eu diwygio ers hynny.

Canmolwyd aelod allu Polisi Iaith Cyngor Gwynedd i sicrhau bod gan y Gymraeg le o fewn ein cymunedau a'r byd busnes.. Er bod niferoedd siaradwyr ar y cyfan wedi gostwng, mae'r polisi yn llwyddo i normaleiddio defnydd o'r iaith.

Rhodddwyd ystyriaeth i lefelau hyder unigolion i siarad yr iaith. Credwyd byddai'r ffigyrau yn uwch petai bobl rhoi hyder yn eu sgiliau ieithyddol gan fod rhai pobl yn teimlo pwysau i ddeall a siarad Cymraeg graenus iawn er mwyn gallu'r cwestiwn dan sylw.

Holiwyd os oedd y gwasanaeth yn edrych ar ddemograffeg er mwyn gallu edrych ar faint o bobl sydd wedi symud i ardaloedd gwahanol, a chyfuno hynny gyda chanlyniadau'r cyfrifiad, er mwyn cael ystadegau clir am gymunedau'r Sir.

- Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth bod manylion am ddemograffeg yn cael ei gynnwys yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad. Er hyn, nid oes modd cymharu ystadegau dwy ardal. Mynegwyd bydd gwybodaeth yn cael ei rannu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol dros y misoedd nesaf a bydd modd edrych i mewn i wahanol feysydd fel byddai'n cael ei ryddhau.

Mynegwyd pryder gan rai aelodau nad ydi Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn ddigon cadarn a chaeth er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ym mhob sefyllfa. Cysidrwyd bod angen ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod ffigyrau defnyddwyr y Gymraeg yn cynyddu yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

#### **9. COMISIYNYDD Y GYMRAEG: ADRODDIAD SICRWYDD 2021-22**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod yr adroddiad yn un blynyddol sy'n cael ei gyflwyno gan y Comisiynydd Iaith a'i bwrpas yw rhoi eu hargraff at sut mae amrywiol gyrrff cyhoeddus yn cydymffurfio â safonau ieithyddol.
- Pwysleisiwyd nad yw'r adroddiad wedi cael ei wneud yn benodol ar gyfer Cyngor Gwynedd ond yn hytrach yn rhoi darlun cenedlaethol cyffredinol.
- Eglurwyd bod yr adroddiad yn rhoi awgrymiad o ba feysydd fydd yn cael sylw gan y Comisiynydd yn y flwyddyn i ddod.

Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r Ymgynghorydd Iaith os oes unrhyw ymholiad yn codi o'r adroddiad.

#### **10. LLYWODRAETH CYMRU: LLYTHYR GAN WEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG**

Cyflwynwyd yr ohebiaeth fel rhan o raglen y pwyllgor er gwybodaeth yn unig. Ni thrafodwyd y mater o fewn y cyfarfod.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:05yp.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

<b><u>CYFARFOD</u></b>	Pwyllgor Iaith
<b><u>DYDDIAD</u></b>	24 Ebrill 2023
<b><u>TEITL</u></b>	Cynllun Hybu'r Gymraeg - Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol
<b><u>PWRPAS</u></b>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
<b><u>AWDUR</u></b>	Geraint Owen – Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

## **1. CEFNDIR**

- 1.1. Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor Iaith am sut mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- 1.2. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cyflogi 16 o staff gan gynnwys y Prif Weithredwr, dau Cyfarwyddwr Corfforaethol, eu tîm gweithredol ac hefyd, ers y 1 o Dachwedd, 2022, swyddogion Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor (a drosglwyddwyd o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol). Ymhellach, cyflogir 23 aelod staff o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol.  
  
Yn ei rôl mae'r Prif Weithredwr, gyda chymorth y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol gweithlu'r Cyngor.  
  
Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor; yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau priodoldeb; cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Etholiadol a chefnogaeth i wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.
- 1.3. O fewn y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, gellir cadarnhau bod pob aelod o staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi.

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	<i>Cwestiwn</i>
<u>Hybu a hyrwyddo</u>  Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt	<b><i>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</i></b>

<p>i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyda chefnogaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, mae'r Tîm wedi arwain ar yr ymgais i gael gwyliau ychwanegol i staff ar ddydd Gŵyl Ddewi, er mwyn hyrwyddo a dathlu ein Cymreictod. Rydym yn falch iawn o fod wedi gallu cynnig diwrnod ychwanegol o wyliau i staff ar Fawrth y 1af, 2022 tra bo gwaith pellach yn digwydd yn bresennol gyda cynrychiolwyr yr undebau llafur er mwyn ceisio sicrhau yr un trefniant ar sail parhaol o 2024 ymlaen.</li> <li>• Mae'r Tîm Arweinyddiaeth hefyd wedi bod yn gyrru ymgais i'r holl staff fod yn dewis gosod Microsoft cyfrwng Cymraeg ar eu dyfeisiadau. Sicrhawyd cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n defnyddio meddalwedd Cymraeg yn y flwyddyn diwethaf tra bo'r ymdrechion yn parhau er mwyn cynyddu'r niferoedd tu hwnt i'r 63% a sicrhawyd hyd yma.</li> <li>• Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg, yn eistedd ar y Fforwm Iaith sirol newydd a sefydlwyd yn ddiweddar gan yr Uned Iaith. Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn ffurfiol am y tro cyntaf ddechrau mis Mehefin. Bydd y datblygiad hwn ynghyd a sefydlu'r Fenter Iaith ar ei newydd wedd, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn sicr o roi hwb pellach i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.</li> <li>• Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn aelod o'r Grŵp Prosiect sy'n hyrwyddo "Prosiect 15" sef ymgais i gynyddu'r deunydd sydd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Clustnodwyd arian i gefnogi'r gwaith hwn sy'n cael ei arwain gan swyddogion yr Uned Iaith.</li> <li>• Bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar y 6 o Hydref, 2022 fabwysiadu Polisi Iaith o'r newydd. Un o'r datblygiadau yn y Polisi hwnnw oedd yr ymrwymiad i arddel enw'r Cyngor yn y Gymraeg yn unig ar bob cyfle posib. Cymrwyd camau eisoes i weithredu ar y penderfyniad hwn e.e. pen-lythyrau, adroddiadau, cefndir cyfarfodydd rhithiol, ac mae gwaith pellach wedi'i raglennu i ledaenu'r arfer hwn i arwyddion cyhoeddus yn y dyfodol.</li> <li>• Mae natur swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn golygu eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol, ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, yn rheolaidd. Mae'n anffodus fod rhai sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn parhau i gynnal cyfarfodydd o'r fath drwy gyfrwng y Saesneg yn llawer rhy aml. Mae'n hanfodol bwysig felly, fel cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, ein bod yn mynnu'r hawl i gyfrannu drwy'r Gymraeg ar bob cyfle.</li> <li>• Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac wedi cael y cyfle i hyrwyddo a chefnogi cynllun sy'n edrych ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn "nrysau blaen" sefydliadau cyhoeddus eraill</li> </ul>
--	---

	<p>Gwynedd. Mae hwn yn un o brif brosiectau'r Bwrdd ar hyn o bryd ac mae cyfle i sicrhau fod sefydliadau eraill yn elwa o brofiad a llwyddiant Gwynedd yn y maes yma.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am sicrhau fod ein uchelgais o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei arddel ym mhob un o Adrannau'r Cyngor. Mae'n rôl sy'n gofyn iddo fo a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol gefnogi adrannau ar adegau a thro arall yn gofyn am herio mewn modd adeiladol.</li> <li>• Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau penodol o ran hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Disgwylir i bob Cyngor Sir a Bwrdd lechyd yng Nghymru benodi uwch arweinydd yn bencampwr y Gymraeg fel rhan o raglen waith Mwy Na Geiriau. Y Cyfarwyddwr Statudol sy'n arddel y rôl honno yng Ngwynedd.</li> <li>• Fel rhan o'r gwaith hwnnw mae'n ofynnol, yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'r pencampwr sicrhau defnydd o'r "Cynnig Rhagweithiol", sef darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, ar bob achlysur. Yng Ngwynedd, er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, cadeiria'r Cyfarwyddwr grŵp Mwy Na Geiriau. Yn rhanbarthol cynrychiolir y Cyfarwyddwr ar Fforwm Gogledd Cymru ar gyfer Mwy Na Geiriau.</li> <li>• Mae gan y Cyngor rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth rhanbarthol. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi bod â rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu y partneriaethau yma, er enghraifft y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer rhanbarth y Gogledd. Yn amlwg mae sawl deinamig ar waith ynglŷn â sicrhau fod trefniadau'r cyrff yma yn gweithredu'n ddwyieithog. Ond, mae'r mewnbwn yma yn golygu fod y trefniadau, gan gynnwys y ddogfennaeth llywodraethu ac ati, yn cael ei baratoi a'i ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae gallu Gwynedd i gyflawni materion technegol ac arbenigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu ein bod yn gallu rhoi sicrwydd a hyder wrth gyflawni'r amcanion yma. Mae hyn bellach yn egwyddor sydd wedi ei sefydlu yn glir o fewn ein gwaith partneriaethol ac yn brysur ddatblygu i fod y norm.</li> <li>• Er bod cyflawni gwasanaeth Crwner yn fater sydd yn nwylo deilydd y swyddogaeth mae sawl agwedd i hyn sydd yn perthnasu ei hun i rôl y Gwasanaeth Cyfreithiol:</li> <li>• Gan mai Gwynedd sydd yn penodi y Crwner a Chwneriaid Cynorthwyol mae gennym ddylanwad sylweddol ar y gofynion ar gyfer y swydd. Golyga hyn ein bod wedi medru sicrhau fod y sawl sydd yn cael eu penodi i'r swyddogaethau hyn yn lleol yn meddu ar y gallu i gyflawni eu dyletswyddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y</li> </ul>
--	---

	<p>Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner sydd â throsolwg o'r trefniadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dilyn ymddeoliad yr Uwch Grwner roedd rhagdybiaeth y byddai ardal Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei huno ag ardal Canol a Dwyrain Gogledd Cymru i greu un ardal. Bellach ni fydd yr uno yn mynd ymlaen ac roedd y Gymraeg yn ganolog i'r penderfyniad yma. Penodwyd Uwch Grwner a Chrwner Cynorthwyol yn ystod y flwyddyn, Kate Sutherland a Sarah Riley, y naill a'r llall yn siaradwyr Cymraeg.</li> </ul>
<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p> <p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan fyddwn yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, rydym yn gwneud ein gorau i gyflogi siaradwyr Cymraeg. Pan nad yw hynny'n bosib, rydym yn sicrhau bod cyfieithydd ar y pryd ar gael i unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gyda chontractwyr allanol fel bod pawb yn cael y cyfle i siarad yr iaith o'u dewis wrth drin a thrafod y gwaith dan sylw. Bydd unrhyw waith a gyhoeddir gan gontractwyr allanol ar gael yn ddwyieithog hefyd.</li> <li>• Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn comisiynu defnydd o weithwyr locwm a chyfreithwyr allanol er cyfarch gofynion am gapasiti neu arbenigedd penodol. Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn her sicrhau darpariaeth o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ar bob achlysur lle mae hyn yn bosib byddwn yn blaenoriaethu defnyddio unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Yr agwedd arall yw'r angen i gyflogi cyfreithwyr arbenigol lefel uchel sydd yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle'n bosib rydym yn cyfarwyddo cyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd yn meddu â'r sgiliau iaith. Mewn rhai achlysuron mae modd sicrhau gwasanaeth ar y lefel uchaf i roi cyngor neu farn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar faterion sydd un ai angen tîm ehangach, arbenigedd penodol neu faint prosiect mae sicrhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr yn anodd, os nad yn anymarferol. Mae'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi ar gytundebau fframwaith cenedlaethol ond, nid yw hwn yn ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwmnïau. Adlewyrchir hyn yn helaeth hyd yn oed o fewn cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru.</li> </ul>

Gweithredu'n  
ddwyieithog

Sut ydym ni'n  
llwyddo wrth  
weithredu ar  
ofynion y Polisi  
laith a Safonau'r  
Gymraeg?

**3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig  
gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?**

- Mae gofyn i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gydweithio'n agos gyda sefydliadau allanol.
- Mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft, yn cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd, ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfarfodydd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae tueddiad gan y Bwrdd Iechyd i droi i'r Saesneg os oes unrhyw un yn y cyfarfod yn methu deall Cymraeg, yn hytrach na sicrhau cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw. Llwyddodd y cyn-Gyfarwyddwr, drwy gydweithio gyda Chyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.
- Mae'r Cyfarwyddwr Statudol yn cymryd mantais o'i ddylanwad fel siaradwr Cymraeg i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a gweithdai, gan gyfrannu'n Gymraeg ar bob achlysur a sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael bob amser.
- Gwrthodir ymateb i holiaduron a cheisiadau cenedlaethol oni bai eu bod ar gael yn y Gymraeg a bu herio mewn cyfarfodydd cenedlaethol y Llywodraeth yn ddiweddar am eu diffyg darpariaeth ddwyieithog. Gwrthododd Pennaeth yr Adran Plant, y Cyfarwyddwr Statudol a'r Prif Weithredwr groesawu arolygwyr Cyfiawnder Ieuentid yn ddiweddar gan nad oedd modd cael arolygwyr allai'r Gymraeg. Yn dilyn peth trin a thrafod cytunodd yr Arolygaeth (o'r Swyddfa Gartref) i atal ac oedi eu harolwg yng Ngwynedd ac Ynys Môn o'r herwydd. Yn sgil hynny penderfynodd sawl sir arall ar draws gorllewin a chanolbarth Cymru weithredu yn yr un modd ac mae'r Arolygaeth, o ganlyniad, yn recriwtio siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.
- Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi ymdrechu i leihau allanoli gwaith. Yn gyffredinol llwyddwyd i wneud hynny. Mae problemau recriwtio dros y 18 mis diwethaf yn golygu ein bod wedi dibynnu ar gyflogi mwy o gyfreithwyr ar sail locwm na fyddai'n arferol. Rhaid cydnabod, er yn ceisio darganfod darpariaeth Cymraeg ar bob achlysur, eithriad yw llwyddo i allu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n galonogol gallu adrodd ein bod wedi cael llwyddiant yn recriwtio cyfreithwyr i'r tîm dros y misoedd diwethaf gyda rhagolygon y byddwn yn gallu lleihau yr angen am weithwyr ar sail locwm.
- Mae'n bwysig cydnabod fod Gwasanaeth Cyfreithiol Gwynedd yn unigryw bron ymhlith y 22 Awdurdod, gan feddu ar dîm lle



	<p>gallai'r holl swyddogion ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn parhau ac nid yw'r materion a nodwyd wedi newid diwylliant nac ychwaith natur y Gwasanaeth.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b><i>4.Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae lle i adlewyrchu ar y gwasanaeth a'r adnoddau ieithyddol sydd o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol megis dogfennau technegol sydd wedi eu creu gennym. Gall hwn fod yn adnodd i'w rannu yn allanol dan amodau priodol petai adnoddau yn caniatáu.</li> <li>• Fel Tîm Arweinyddiaeth, byddwn yn parhau i hyrwyddo a manteisio ar bob cyfle a geir i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phriod le, nid yn unig yng ngwaith y Cyngor ond hefyd ar lefel cymunedol o fewn y Sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.</li> </ul>

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Iaith</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>24 Ebrill 2023</b>
<b>TEITL</b>	<b>Adroddiad Adran Economi a Chymuned</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned</b>

## **1 CEFNDIR**

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth am gyfraniad yr Adran Economi a Chymuned i bolisi iaith Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd dros y flwyddyn diwethaf ac amgaeaf gopi o adroddiad 2022 er gwybodaeth - [Adroddiad Pwyllgor Iaith 2022](#)
- 1.2 Mae'r tabl canlynol wedi ei baratoi mewn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor ac enghreifftiau o wasanaethau'r Adran hoffwn eu hamlygu wedi cael eu cynnwys.

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

### Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo

Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?

Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:

1. Iaith y teulu,
2. Iaith dysgu,
3. Iaith gwaith a gwasanaeth,
4. Iaith y gymuned
5. Ymchwil a Thechnoleg

Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf>

### Ateb:

Mae'r Adran wedi cydweithio gyda partneriaid er mwyn cyflwyno cais i Llywodraeth Cymru i ariannu rhaglen Arfor dros gyfnod o 3 blynedd. Mae £11m wedi ei glustnodi i'w wario rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2025 ar becyn o brosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg.

Pwrpas rhaglen Arfor ydi cefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae 4 prif amcan:

1. Creu cyfleoedd i pobl a teuluoedd ifanc ( $\leq 35$  oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid
2. Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg
3. Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio
4. Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg

Rydym wedi cytuno ar 5 prosiect i'w ariannu a bydd yr Adran yn rheoli a gweithredu'r prosiectau hyn dros y 2 flynedd nesaf:

1. Llwyddo'n Lleol
2. Cymunedau Mentrus
3. Cronfa Her ARFOR
4. Cryfhau Hunaniaeth Cymunedau ARFOR
5. Dysgu o'r Rhaglen ARFOR

**Datblygu'r Economi (Cefnogi Busnes)** - wrth baratoi i agor cyfres o gronfeydd grant newydd, rydym yn cyfeirio ymgeiswyr i ymgymryd ag asesiad iaith Comisiynydd y Gymraeg. Rydym hefyd wedi cynnwys cwestiynau i sicrhau ein bod yn casglu data ynglŷn a phroffil ieithyddol pob cwmni sy'n ymgeisio am grant.

**Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau:** Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gydag Adrannau'r Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sefydlu Cynllun Economi Ymweld

Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Un o'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt i'r dyfodol yw: Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth a bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i hybu perchnogaeth leol ac i ddatblygu cyfleon i amlygu'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddi ar ddatblygu mesuryddion cynhwysfawr newydd ar gyfer yr economi ymweld ac mae trafodaethau yn parhau gyda Phrifysgol Bangor i adnabod dulliau synhwyrol o ymchwilio effaith (cadarnhaol a negyddol) yr economi ymweld ar iaith ein cymunedau. Cynhelir ymchwil peilot gyda Phrifysgol Bangor yn ardal Dyffryn Ogwen un o gydrannau'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

### **Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu trefniadau rhedeg y gofod caffi yn Storiell gan ystyried rôl ehangach Storiell fel hwb cymunedol. Trwy gyd-weithio gyda Menter Iaith Bangor mae sesiynau caffi babis yn cael eu cynnal yn y gofod yn ogystal a sesiynau i annog sgysiau dros baned yn anffurfiol rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn parhau i ddarparu sesiynau'n ddwyieithog ar draws Gwynedd i annog creadigrwydd a llesiant cymunedau Gwynedd trwy'r celfyddydau. Trwy'r Grantiau Strategol i'r Celfyddydau mae cefnogaeth yn cael ei roi i sefydliadau a chwmnïau celfyddydol Gwynedd gyrraedd pob rhan o'r sir a chynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Mae cefnogaeth yn benodol wedi ei roi i Theatr y Ddraig yn Abermaw yn ddiweddar i ehangu ar y cynnig iaith Gymraeg sydd ar gael yno.

Mewn gweithgareddau celf sydd yn cael eu harwain gan Artist sydd ddim yn siarad Cymraeg mae'r Gwasanaeth yn defnyddio cynorthwyr sydd yn siarad Cymraeg i gefnogi'r Artist i ddysgu, ac i roi gwasanaeth Cymraeg i'r mynychwyr a'r rhieni.

Yn y prosiect *Crefft er Lles* roedd cymysg o siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn y gweithgareddau – ac roedd yr adborth yn bositif iawn am y cyfle yma i pobl ddysgu Cymraeg mewn awyrgylch ymlaciol a chefnogol. Yn ôl yr artist oedd yn cynnal y gweithgaredd:

*'Canfu dysgwyr Cymraeg fod bod mewn grŵp o siaradwyr Cymraeg yn bennaf yn help mawr iddynt ddysgu mwy o Gymraeg. Dywedasant fod yr iaith a ddefnyddwyd yn haws i'w dilyn ac yn fwy perthnasol (am grefftio) iddynt na'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o'r blaen mewn dosbarthiadau Cymraeg.'*

Mae'r Gwasanaeth yn cynnal gweithgareddau celfyddydol therapiwtig trwy'r iaith Gymraeg e.e. prosiect *'Llannerch Llew'* (ymyriad creadigol gyda merched blwyddyn 6 yn bennaf gyda sesiynau i fechgyn blwyddyn 6 a staff yr ysgol). Roedd hyn yn gyfle i fynychwyr gael mynediad at therapi celf sydd fel arfer ar gael trwy gyfrwng y Saesneg

### **Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

Mae'r Gymraeg yn thema llorweddol o fewn y Cynllun Rheoli ac yn derbyn sylw ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth. Mae trafodaethau wedi cymryd lle i adnabod cyfleon i fonitro unrhyw effeithiau allai ddeillio o brosiectau sy'n datblygu o'r dynodiad ar y Gymraeg.

Trwy gyfnod datblygu cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol rydym yn trafod efo cymunedau ar draws y broydd llechi er mwyn adnabod cyfleon a gweithgareddau i hybu'r Gymraeg a dealltwriaeth o'n treftadaeth a'n diwylliant. Mae'r cyd-weithio gyda Phrifysgol Bangor ar ymchwil cychwynol yn Nyffryn Ogwen yn gam pwysig ymlaen i ni gael sylfaen i fonitro unrhyw effeithiau ar y Gymraeg a hyder ein cymunedau yn sgil y dynodiad treftadaeth byd Unesco.

### **Gwasanaeth Archifau**

Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn darparu deunydd a gweithgareddau i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall eu cymunedau, pwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaeth lleol.

### **Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Mae mwyafrif o'r gweithgareddau i blant a theuluoedd, ac oedolion a gynhelir yn Llyfrgelloedd Gwynedd unai drwy'r Gymraeg yn unig neu gyda Chymraeg yn rhan ganolog ohonynt. Credwn mai trwy roi cyfle i bobl glywed a sgwrsio, a chymryd rhan trwy'r Gymraeg, y bydd y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gymunedol, fyw.

Dyma un dyfyniad gan fynychwyr - "The story sessions are the only exposure I have to Welsh nursery rhymes and Welsh stories."

Bu achlysur ym Mhwlheli'n ddiweddar ble bu i ddwy ddysgwraig, oedd yn yr adeilad heb blant tra roedd sesiwn ymlaen, ofyn i gael ymuno a'r sesiwn er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg. Estynnwyd croeso iddynt wrando ar y stori, ymuno yn y canu a'r symudiadau a chymryd rhan yn y weithgaredd crefft i ddilyn. Roeddynt wedi dysgu am rannau'r corff yr wythnos honno yn eu gwerau Gymraeg ac wedi gwirioneddol werthfawrogi cael cymryd rhan a'r cyfle i ymarfer eu Cymraeg.

Mae'r storiâu fel hyn yn dangos bod gwerth ychwanegol o gynnal y sesiynau yng nghorff y Llyfrgell fel bod y cyhoedd yn cael clywed yr iaith yn cael ei defnyddio mewn ffordd hwyliog sy'n rhoi cyfleoedd i blant a babanod brofi profiadau newydd a chyfle gwerthfawr i rieni ac eraill gymdeithasu a chynnal ei gilydd.

Yn sgil hyn, rydym wedi cychwyn cydweithio gyda'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg ac yn cynnig gofod yn y Llyfrgelloedd i diwtoriaid redeg cyrsiau dysgu Cymraeg. Ar gynffon y cyrsiau hyn, mae modd cyfeirio pobl at y sesiynau Paned a Sgwrs (cyfle i bobl drafod llyfrau/cerddi/adnoddau Cymraeg yng ngofal staff y Llyfrgell) ac mae grwpiau llwyddiannus yn rhedeg ar hyn o bryd yn Llyfrgelloedd Cricieth ac Abermaw gyda sesiynau pellach i ddilyn mewn llyfrgelloedd eraill.

Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gyda'r adnoddau hyn ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd a Llyfrgelloedd drwy Gymru. Heb ein ymyrraeth, ni fyddai'r adnoddau hyn ar gael.

Rydym yn cydweithio gyda Cymraeg i Blant i gynnal sesiynau i blant a theuluoedd mewn Llyfrgelloedd penodol.

Mae rhyngwyneb y rhan fwyaf o systemau ar gael yn Gymraeg yn cynnwys ein catalog ar lein, system hunanwasanaeth a Borrowbox.

### **Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio**

Mae'r Gwasanaeth yn llunio Cynllun Aseiad Cydraddoldeb fel rhan weithredu rhaglen, a fu'n llwyddiannus am gyllid drwy Gronfa Ffyniant Bro, Llewyrch o'r Llechi. Bydd aseiad o'r rhaglen yn ei chyfarwydd ac o'r holl gynlluniau unigol. Mae'r cynlluniau unigol yn cael eu gweithredu gan amrediad o bartneriaid a bydd yn ofynnol iddynt gwblhau'r aseiad. Mae materion ieithyddol yn rhan bwysig o'r aseiad.

## Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau

- i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau iaith).
- ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi iaith a Safonau'r Gymraeg)?
- iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwytieithog.

### Ateb:

Roedd 80.5 % o staff yr Adran wedi cwblhau hunanasesiad iaith yn mis Medi 2022. Roedd 39 aelod o staff heb gyflwyno hunanasesiad iaith, ond oherwydd fod casglu gwybodaeth gan staff achlysurol a rheng flaen yn gallu bod yn her, rydym wedi canolbwyntio yn ddiweddar ar gasglu asesiadau gan reolwyr llinell er mwyn nodi os yw'r unigolion yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ai pheidio.

Golyga hyn mai dim ond 3 aelod o staff yr Adran oedd heb asesiad iaith o gwbl ac mae'r unigolion hyn wedi cael eu targedu.

Mae'r asesiadau yn dangos fod 94.5% o staff yr Adran wedi cyrraedd dynodiadau iaith y swydd.

O'r 9 aelod o staff nad ydyn nhw yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd, nid oes yr un yn dilyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd ac mae'r mater yma yn derbyn sylw.

Mae gallu'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau i ddenu gwirfoddolwyr iaith Gymraeg neu siaradwyr newydd yn parhau i fod yn heriol ac rydym yn ystyried y dulliau gorau o fedru denu a rheoli gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth.

### Rhwystrau:

O ran y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, nid yw'n bosib bob tro i weithio gydag artistiaid sydd yn siaradwyr Cymraeg – os mai hyn yw'r achos, rydym yn eu cefnogi i gynnal y gweithgareddau gyda Cymhorthwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg, ac yn rhoi cyfle i'r artistiaid sy'n siaradwyr newydd i ddefnyddio Cymraeg os ydyn nhw'n hyderus i wneud hynny. Mae yna gymorth trwy Cyngor Celfyddydau Cymraeg i artistiaid ddysgu Cymraeg ond efallai byddai'n syniad cynnig mwy o gymorth trwy Cyngor Gwynedd.

Mae hi'n her ar adegau i rannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r celfyddydau yng Ngwynedd ond nad ydynt ar gael yn ddwyieithog.

### Cwynion:

Mae'r Adran wedi derbyn sylwadau gan Howard Hughes o Cylch yr Iaith am waith y Cyngor yn datblygu'r Cynllun Economi Ymweld ac hefyd yn datblygu rhaglen Llewyrch o'r Llechi. Bydd mwy o fanylion am y cwynion hyn yn cael eu rhannu gyda Aelodau yn y Pwyllgor.

Mae rhai cwynion wedi eu derbyn ynghylch staff yn Neuadd Dwyfor a Storiell yn siarad Saesneg ymysg ei gilydd. Mae trafodaeth wedi bod gyda staff er mwyn eu cymhell i siarad Cymraeg gyda'i gilydd ac i asesu unrhyw anghenion neu gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyfathrebu'n naturiol gyda'i gilydd yn y Gymraeg.

### **Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu**

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

#### **Ateb:**

Fe allai'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau gynnig gweithgareddau ehangach o fewn ein cymunedau i gefnogi llesiant, creadigrwydd, dealltwriaeth diwylliannol a sgiliau ieithyddol – ond mae her barhaol o sicrhau cyllid ychwanegol i fedru cyflawni'r gwaith yma a nid oes cyllideb graidd ar gael yn y Gwasanaeth i weithredu mwy na'r hyn a wneir.

Trwy brosiectau Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru mae cyfleon i hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws y broydd llechi. Bydd prosiectau sydd ar y gweill yn cynnig cyfleon i ni adeiladu ar y cyfleon hyn wrth i ni ddenu cyllid ychwanegol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu a datblygu prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Drwy ddefnydio casgliadau'r Gwasanaeth gallai'r Gwasanaeth Archifau gynnig gweithgareddau yn ein cymunedau ac yn ein archifdai i hybu'r Gymraeg. Yn ddibynnol ar y weithgaredd gellir cyflawni hyn unai gyda staff y Gwasanaeth neu drwy gyd-weithio ag eraill.

# Eitem 7

<b>CYFARFOD:</b>	PWYLLGOR IAITH
<b>DYDDIAD:</b>	24ain Ebrill 2023
<b>TEITL:</b>	Diweddariad ar waith Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd
<b>AWDUR:</b>	Iwan Hywel, Pen Swyddog Hunaniaith- Menter Iaith Gwynedd
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

## 1. Cefndir

1.1 Bwriad sylfaenol Hunaniaith, Menter Iaith Gwynedd yw cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau ac ym mhob cymuned ledled Gwynedd. Yn yr adroddiad hwn, edrychir yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf a chyflwyno esiamplau o waith y swyddogion er mwyn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r math o ymyraethau sydd yn cael eu cynllunio ar draws y gwahanol feysydd.

1.1.1 Cychwynnodd Pen Swyddog newydd Hunaniaith ei waith ym mis Mai 2022, hynny yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn 2021 i ariannu Pen Swyddog i'r fenter iaith "i ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol." Ariennir y swydd am 4 blynedd o 2021.

## 2. Trosolwg o waith 2022-2023

2.1 Yn dilyn cyfnod gwahanol Covid 19 gwelodd 2022-2023 ni'n mynd yn ôl i drefn fwy arferol o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y cawd, ond oherwydd poblogrwydd ymysg defnyddwyr ein gwasanaeth mae rhai elfennau digidol/rhithiol yn parhau.

2.2 Mae rhan fwyaf o'n gwaith yn canolbwyntio ar Thema 2 strategaeth Cymraeg 2050, sef 'Cynyddu Defnydd y Gymraeg'. Rhennir ein gwaith gyda'r cyhoedd yn dri maes penodol sef Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd a Chymuned. Yn adran 3 yr adroddiad hwn rhoddir blas o rai o'r prif gynlluniau ddigwyddodd yn 2022-23 o fewn y 3 maes.

2.3 Rydym angen denu mwy o wirfoddolwyr i weithredu dros y Gymraeg yn ein cymunedau ar draws y sir, felly nid 'cynnal' neu 'drefnu' digwyddiadau yn unig rydym yn anelu i wneud, ond cynllunio digwyddiadau ac ymyraethau fydd yn ysbrydoli, fel bod modd i ni rymuso a chefnogi cymunedau ac unigolion i weithredu eu hunain hefyd.



- 2.4 Penodwyd 'Grŵp Arweiniol' o wirfoddolwyr newydd yn haf 2022 i arwain ar symud y Fenter Iaith i fod yn endid annibynnol o'r awdurdod lleol, ceir mwy o wybodaeth ac amserlen arfaethedig yn adran 4 yr adroddiad hwn.
- 2.5 Llwyddwyd i ddenu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, £22,000, o gronfeydd amrywiol oedd yn cynyddu ein capasiti i gynnig mwy o weithgarwch ac yn creu incwm fydd yn gefn i ni wrth i Hunaniaith newid dros y flwyddyn nesaf.

### 3. Prosiectau penodol

#### 3.1 Teuluoedd

3.1.2 **Llyfrgelloedd**- Cydweithiwyd gydag adran llyfrgelloedd y sir i drefnu taith 'Sesiwn Teulu- Amser Stori a Cherdd', o dan ofal cwmni Cyswllt Sain, mewn pedwar o lyfrgelloedd ar draws y sir (Bala, Bethesda, Porthmadog, Blaenau Ffestiniog)

3.1.3 **Llanbedrog**- Drwy weithio ar y cyd gyda grŵp lleol 'Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog' trefnwyd gwasanaeth carolau yn oriel Plas Glyn y Weddw oedd yn cynnwys dysgwyr yn canu carolau Cymraeg, yr ysgol leol yn cymryd rhan a phob anerchiad yn y Gymraeg. Hefyd yn Llanbedrog a drwy gydweithio efo'r pwyllgor lleol cafwyd 'Disgo Dwynwen' gyda bron i 50 cant o blant a 25 o rieni'n mynychu.

3.1.4 **Canolfannau Trochi**- Drwy ddatblygu ein partneriaeth gyda'r adran addysg rydym wedi cychwyn estyn allan i deuluoedd newydd sydd yn anfon eu plant i'r canolfannau trochi er mwyn creu system o gefnogaeth i'r teulu cyfan, nid dim ond y disgybl, gyda'r nod fod hyn yn arwain at y teuluoedd hynny yn dod yn agosach at y Gymraeg ac yn ei defnyddio hi. Cychwynnodd y gefnogaeth yma'n ystod 2022-23 drwy gyflwyniadau digidol bob tymor i rieni, cyflwyniadau am hanes yr iaith, y sefyllfa bresennol, ble i fynd am gefnogaeth a ble i'w defnyddio hi'n lleol.

3.1.5 **Ffestiniog**- Sesiynau 'Wenglish'- yn ardal Ffestiniog, gwneud pethau sydd ddim yn canolbwyntio ar y Gymraeg, ond drwy'r Gymraeg. 'Wenglish' yn hytrach na Chymraeg, i ddenu a hybu teuluoedd i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt heb ddisgwyliad ar neb i fod yn berffaith, rhugl ayb yw nod y sesiynau hyn. Cafwyd sesiynau chwerthin a dweud jôcs, sesiynau chwarae yn y parc a chadw'n heini, yn cwrdd mewn gwahanol lefydd fel ffarm leol, caffï lleol ayb.

3.1.6 **Bangor**- Cydweithiwyd gyda MSparc 'Ar y lôn' ym Mangor i gynnig gweithdai celf i deuluoedd yn arwain fyny at y Nadolig ac at ddathliadau Gŵyl Ddewi yn y ddinas.

#### 3.2 Plant a Phobl Ifanc

3.2.1 **Digidol**- Yn ddigidol rydym yn bachu ar y cyfleodd sydd o dynnu ysgolion y sir, y canolfannau trochi a theuluoedd - pan mae'r plant gartref, i wneud gweithgareddau yn y Gymraeg, cynigwyd y canlynol:

- Cwis Dim Clem 2023 (Cwis cenedlaethol y mentrau iaith)- i ysgolion y sir- 15 ysgol a 226 disgybl o Wynedd wedi cymryd rhan, gydag Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth yn dod yn drydydd drwy Gymru gyfan!
- Sesiynau gwyddoniaeth gan Gwmni 'Sbarduno' yn ystod gwyliau ysgol, pedair sesiwn i gyd gyda dwy o'r rhain wedi eu trefnu'r benodol ar gyfer disgyblion y canolfannau trochi- 36 plentyn wedi cymryd rhan
- Cwisys Kahoot yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion, a theuluoedd i'w gwneud adref, i gyd-fynd gyda digwyddiadau megis Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a Gŵyl Ddewi
- Clwb gemau fideo misol Mentrau iaith y gogledd

3.2.2 **Cwpan y Byd**- defnyddio'r twrnament i greu cyffro am y Gymraeg, mae enghreifftiau o'r gwaith fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth dylunio Het Bwced cenedlaethol y Mentrau Iaith drwy'r ysgolion ac i deuluoedd wneud gartref- 51 ysgol a 1,358 o geisiadau o Wynedd
- Murlun o Ethan Ampadu, chwaraewr Cymru, a gig gan Elidir Glyn yn ysgol Dyffryn Nantlle gyda phlant ysgol Bro Lleu hefyd yn mynychu

3.2.3 **Haf o Hwyl**- buom yn rhan o gais cenedlaethol y Mentrau Iaith i gronfa Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i ddenu £12,500 oedd i'w wario ar weithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod yr haf, trefnwyd 23 digwyddiad gyda 341 o blant yn mynychu'r digwyddiadau. Trefnwyd digwyddiadau ym Mangor, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Bala, Penygroes, Penrhyndeudraeth, Llanbedrog, Dinas Dinlle a Nefyn. Rhai o'r digwyddiadau a drefnwyd:

Dringo	Padylfyrddio	'Gwyllgrefft' (Bushcraft)
Disgos	Perfformio	Llywio Mynydd

Diwrnod o hwyl i ffoaduriaid o'r Wcráin yng Ngwersyll yr Urdd Glan Llyn

3.2.4 **Cynlluniau Cymunedol i blant a phôl ifanc:** Gyda gweithgarwch yn y cnawd anelwn i lenwi bylchau a threialu a datblygu cynlluniau cymunedol sydd efo'r posibilrwydd o barhau yn yr hir dymor heb ein cefnogaeth. Yn ystod y cyfnod:

- Parhaodd Llwyfan Llŷn (clwb theatr yn Sarn, Pen Llŷn). Bellach rydym yn rhoi llai o gymorth ariannol i'r gweithgarwch hwn drwy dynnu nôl yn raddol a gofyn i rieni gyfrannu mwy at y sesiynau i blant a phobl ifanc, anelwn fod y gweithgarwch hwn yn sefyll ar ei draed ei hun erbyn ail hanner 23-24.
- Ysgol Goedwig, Llanywer- ymateb i alw lleol am weithgarwch yn yr awyr agored yn y Gymraeg, eto treialu yn y lle cyntaf drwy gynnig am ddim, anelu i ddatblygu drwy fod rhieni'n talu yn ystod 23-24. Sesiynau megis adnabod planhigion, codi lloches, cychwyn tân ayyb
- Theatr Derek Williams, Bala- sesiynau celfyddydol ym Mhenllyn i dreialu'r galw am weithgarwch o'r fath yn fwy cyson

3.2.5 **Dylanwadu:** Drwy ein gwaith ceisiwn ddylanwadu ar ddigwyddiadau a mudiadau sydd yn y gorffennol wedi peidio â gwneud llawer yn y Gymraeg. Mae hyn er mwyn ceisio dylanwadu ar eu defnydd o'r iaith ac iddynt gynnig gweithgarwch yn y Gymraeg i blant yn y dyfodol, a thrwy hynny gynyddu defnydd a 'normaleiddio'r Gymraeg' yn enwedig yn ein hardaloedd sydd â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg. Yn y cyfnod hwn gwelwyd ni'n gwneud hyn gyda:

- Elusen Asynnod Eryri, Dyffryn Ogwen- datblygu a'u cefnogi i gynnig digwyddiad yn y Gymraeg i blant gydag anableddau

- Academi Westend Academy, Bangor- cefnogi'r ysgol theatr i gymryd rhan yng ngweithgarwch Gŵyl Ddewi Bangor gyda'r academi am y tro cyntaf erioed yn canu caneuon yn y Gymraeg

**3.2.6 Ysgolion ac adran addysg-** Cydweithiwn gydag ysgolion a'r adran addysg ac yn ystod y cyfnod hwn gwnaethpwyd hyn i:

- Digwyddiad "ymgyngori" gyda 16 o ddisgyblion blwyddyn 8 pedair ysgol uwchradd o Feirionnydd yn Glan Llyn, cyfle i ni ddysgu beth sy'n bwysig, beth yw arferion ieithyddol a be hoffai'r plant yma ei weld yn digwydd yn y Gymraeg, hynny yn a thu allan i'r ysgol. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn sail i'n cynllunio a cheisiadau cyllido yn y flwyddyn nesaf
- Gweithgareddau awyr agored, hwylusir gan yr Urdd, i ddisgyblion blwyddyn 8 ysgolion uwchradd Tryfan a Friars ym Mangor- dod a siaradwyr hyderus a dihyder ynghyd yn yr awyr agored i geisio dylanwadu ar ddefnydd iaith

### 3.3 Cymuned

Drwy ein gwaith cymunedol rydym yn ceisio grymuso unigolion a chymunedau i gymryd yr awenau a threfnu pethau lleol yn Gymraeg, yn ogystal â threfnu digwyddiadau sy'n tynnu cymunedau at ei gilydd, yn codi bri ac ymwybyddiaeth ac yn dangos be sy'n bosib, yn y cyfnod hwn digwyddodd:

- 3.3.1 Digwyddiadau dathlu Gŵyl Ddewi, dinas Bangor-** Menter iaith Bangor wedi cychwyn y dathliadau hyn rhai blynyddoedd yn nôl, bellach dan arweiniad grŵp sy'n cynnwys cyngor y ddinas gyda nifer o bartneriaid, gyda'r fenter iaith yn chwarae rôl allweddol. Digwyddiadau yn cynnwys gorymdaith a chyflwyniadau celfyddydol sy'n dod a phawb ynghyd ac yn cyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd.
- 3.3.2 Sesiynau Rheolaidd i Ddysgwyr-** Paned a Moidyr (Bangor), Clwb Sgwrsio (Trawsfynydd), Clwb Siarad (Groeslon)- sesiynau rheolaidd i ddysgwyr- digwyddiadau sy'n derbyn ein cefnogaeth ni, ond sydd hefyd yn ddibynnol ar wirfoddolwyr ac sy'n gallu digwydd heb aelodau staff yn mynychu, sef y delfryd rydym yn anelu amdano gyda sesiynau i ddysgwyr, a gweithgarwch arall, ar draws y sir.
- 3.3.3 Clwb Rhedeg, Bangor-** clwb ymarfer loncian ysgafn pob pythefnos gyda'r pwyslais ar fwynhau a siarad yn hytrach na rhedeg yn gyflym
- 3.3.4 Teithiau Cerdded i Ddysgwyr-** Mae ein teithiau cerdded i ddysgwyr yn parhau yn boblogaidd tu hwnt, ac er bod teimlad bod hyn yn drwm o ran amser staff, mae adborth clir gan y dysgwyr fod y rhain yn cael eu mwynhau'n ofnadwy ac yn hanfodol i ychwanegu at eu profiad o ddysgu yn y dosbarth ac i ddod i ddeall a themlo'n rhan o'u cymunedau lleol. Anelwn i ddatblygu'r rhain gyda mwy o arweinwyr gwirfoddol yn y dyfodol. Yn y cyfnod hwn cafwyd 8 taith mewn ardaloedd amrywiol yn cynnwys: Porthmadog, Llanystumdwy, Bangor, Bethesda a Nefyn.

- 3.3.5 **Cefnogaeth i glybiau golff**- Drwy ein cefnogaeth, ac ar y cyd, mae clybiau golff Nefyn ac Abersoch bellach yn trefnu nosweithiau adloniant Cymraeg, yn y cyfnod cafwyd nosweithiau gyda John ac Alun, Dylan Morris ac Annette Bryn Parry. Mae'r clybiau bellach yn gweld manteision digwyddiadau Cymraeg ac yn awyddus i wneud mwy, hyn wrth gwrs yn dilyn ein cefnogaeth ac ymyrraeth gychwynnol. Mae Clwb Golff Abersoch, yn sgil ymyrraeth Hunaniaith, wedi cofrestru fel lleoliad perfformio gyda chynllun Noson Allan.
- 3.3.6 **Cyngor**- Rhoddwyd cyngor ac arweiniad cychwynnol i grŵp newydd sydd wedi dod at ei gilydd yn Llanuwchllyn i geisio prynu'r dafarn leol i'w sefydlu fel Menter Gymunedol Gymraeg, o'r arweiniad hwn bu'r grŵp yn llwyddiannus mewn cais grant i gronfa Cwmpas.

#### 4. Y dyfodol

Mae Hunaniaith wedi datblygu ac esblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a bydd hyn yn cyflymu yn ystod 2023-24.

##### 4.1 Newid i fod yn endid annibynnol-

4.1.2 **Cofrestru Cwmni ac Agor cyfrif banc**- Dan arweiniad ein grŵp o 11 o wirfoddolwyr anelwn i gofrestru cwmni nid er elw ac agor cyfrif banc yn ystod gwanwyn 2023, enw'r endid newydd fydd Menter Iaith Gwynedd. Gwneir hyn yn gynt yn hytrach na'n hwyrach er mwyn denu mwy o wirfoddolwyr a medru mynd ar ôl cyllid ychwanegol.

4.1.3 **Lansiad**- Byddwn yn cael 'lansiad meddal' yn yr Eisteddfod, yn datgan i'r byd bod 'Menter Iaith Gwynedd' ar y ffordd ac yn cynnal ymgyrch i bobl ymuno efo ni i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

4.1.4 **Swyddogion Cyflogedig**- Bydd y staff yn parhau yn gyflogedig i Gyngor Gwynedd yn ystod 23-24, gan newid yn swyddogol i fod yn gyflogedig gan yr endid annibynnol newydd 1af o Ebrill 2024

4.1.5 **Strategaeth Gyllido a Chynllun busnes**- rydym yn datblygu'r rhain ar hyn o bryd. Llwyddwyd i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, adran Economi Cyngor Gwynedd ac adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn ystod 2022-23. Byddwn yn anelu am gronfeydd y loteri ac Arfor2 yn ystod 23-24, yn ogystal ag adnabod bylchau masnachol gall y Fenter Iaith ar ei newydd wedd ystyried ei llenwi drwy gynnig gwasanaethau masnachol.

##### 4.2 Blaenoriaethau 23-24

4.2.1 **Ardaloedd Blaenoriaeth**- Byddwn yn cefnogi cymunedau ar draws y sir, ond byddwn yn canolbwyntio peth o'n gwaith yn ardaloedd Penllyn, Pen Llŷn, Bangor, Dyffryn Ogwen a'r Felinheli, hyn yn dilyn canlyniadau cyfrifiad 2021 ac oherwydd ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol.

4.2.2 **Cynulleidfaoedd Blaenoriaeth**- Mae plant a phobl ifanc, a chael plant sy'n gallu siarad Cymraeg i'w defnyddio hi, yn flaenoriaeth.

4.2.3 **Partneriaethau**- mae cryfhau ein hymwneud gyda mudiadau, asiantaethau a grwpiau cymunedol yn hanfodol. Byddwn yn parhau i fod yn rhan o rwydwaith newydd 'Mentrau Cymunedol Gwynedd', cryfhau ein hymwneud gyda grwpiau gwirfoddol a gwneud y mwyaf o ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol drwy weithio mewn partneriaeth â nhw ar sawl cynllun, gan gynnwys arwain ar greu gwaddol ieithyddol i ymweliad yr Eisteddfod tu hwnt i fis Awst.

## 5. Argymhelliad

Argymhellir bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad.

# Eitem 8

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>7 Ebrill 2022</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams</b> <b>Ymgynghorydd Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreifftiau o lwyddiannau'r Uned wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

## 1. Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion.

Rhoir trosolwg yma o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gryfhau ymrwymiad y Cyngor a'i wasanaethau i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn i'r cyhoedd ac i gydymffurfio yn llawn gyda gofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg.

### 1.1 Cydymffurfiaeth efo'r Safonau

Cymerwyd nifer o gamau penodol yn ystod y flwyddyn i gryfhau cydymffurfiaeth gwasanaethau gyda Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygu a diweddarau polisi iaith y Cyngor i gryfhau'r arweiniad a chyhoeddi gweithdrefn dyfarnu grantiau (*mwy o wybodaeth isod*)
- creu templedi ac atgoffa staff o'r datganiadau sydd angen eu cynnwys ar ddogfennau a gohebiaeth, yn gwahodd cyfathrebu yn Gymraeg gan y cyhoedd
- addasu polisïau a gweithdrefnau cwynion staff i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion y Safonau
- cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnwys cwestiynau am effaith ieithyddol mewn ymgynghoriadau cyhoeddus ar benderfyniadau polisi.

### 1.2 Polisi Iaith 2022

Cwblhawyd y gwaith o adolygu Polisi Iaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn, gyda'r polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu yn ystod hydref 2022. Mae rhaglen codi ymwybyddiaeth wedi bod yn cael ei gweithredu ers hynny, gyda negeseuon yn cael eu rhannu gyda staff yn rheolaidd er mwyn tynnu sylw at newidiadau neu atgoffa am y disgwyliadau mewn cyd-destunau penodol.

Fel rhan o ddiwygio'r Polisi, ac adolygu ein cydymffurfiaeth gyda gofynion y Safonau, cafodd is-bolisi dyfarnu grantiau hefyd ei lunio a'i gyhoeddi yn fewnol, er mwyn rhoi arweiniad i staff am y gofynion a'r materion ieithyddol sydd angen eu hystyried wrth brosesu grantiau a chymorth ariannol ar ran y

Cyngor. Fel rhan o'r gwaith yma, mae'r ymgynghorwyr iaith wedi gweithio efo swyddogion o'r adran Economi er mwyn adolygu amodau safonol ar gyfer grantiau busnes.

### **1.3 Gwaith ymchwil:**

Bu'r Uned Iaith a Chraffu yn adeiladu ar y berthynas weithio gyda Phrifysgol Bangor dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae dau ddarn o waith ymchwil pwysig bellach yn cael eu cynnal gan y Brifysgol ar ran y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cyd-ariannu gwaith ymchwil PhD, fydd yn edrych ar agweddau a defnydd iaith pobl wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Bydd y gwaith yn ymchwilio i'r rhesymau pam bod rhai pobl yn tueddu defnyddio'r Saesneg gyda gwasanaethau ar-lein, er enghraifft, ac yn edrych ar newidiadau mewn defnydd ac agweddau trigolion dros gyfnod o amser. Y gobaith yw y byddwn yn gallu cynnal ymyraethau penodol er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y gwaith ymchwil yn gallu cyfrannu tystiolaeth o lwyddiant neu fethiant unrhyw ymyraethau.

Bydd yr ail ddarn o waith, sydd wedi derbyn arian sbarduno ar gyfer gwneud darn o waith ymchwil cychwynnol, yn edrych ar y cyswllt rhwng iaith a'r economi ymweld.

Mae prosiect wedi ei gomisiynu gan Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau i edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar ddefnydd iaith y cyhoedd mewn gwasanaethau rheng flaen. Dewiswyd nifer o dderbynfeydd, yn y Cyngor ac mewn sefydliadau partner yn y gwasanaethau cyhoeddus, i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Yn sgil hynny datblygwyd adnodd hyfforddiant staff ac awgrymiadau i staff er mwyn annog y cyhoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

### **1.4 Fforwm**

Mae sawl fforwm wedi ei sefydlu yn ystod y misoedd diwethaf, fydd yn helpu symud trafodaethau am y Gymraeg yn eu blaen.

Roedd y Fforwm Mwy na Geiriau mewnol wedi ei sefydlu yn ystod y flwyddyn flaenorol, er mwyn trafod sut y mae'r Cyngor yn gweithredu egwyddorion a blaenoriaethau Mwy na Geiriau, y Fframwaith Strategol ar gyfer defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae newidiadau wedi bod dros y misoedd diwethaf, gyda'r fforwm bellach yn cael ei harwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhaglen waith yn ei lle ar gyfer asesu a monitro sut mae'r gwasanaethau Oedolion, Plant a Gofal yn llwyddo i ateb gofynion y trigolion o ran gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol.

Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Iaith sirol newydd, sydd yn dod a chynrychiolwyr o sefydliadau a phartneriaid allweddol, ac o grwpiau cymunedol, at ei gilydd, er mwyn trafod sut y gallwn gydweithio i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y sir ac i ystyried yr hyn sydd angen digwydd mewn nifer o feysydd allweddol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

### **1.5 Mewnrwyd**

Cafodd tudalen newydd ei chreu ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth gyda staff am faterion yn ymwneud efo'r Polisi Iaith a'r Safonau. Mae adnoddau megis copi o logo newydd uniaith y Cyngor, a thempledi ar gyfer y datganiadau sydd yn ofynnol i ni eu cynnwys mewn dogfennau a



gohebiaeth, wedi eu gosod ar y fewnrwyd er mwyn i staff gael gafael arnynt yn hawdd pan fydd eu hangen.

Cafodd gwybodaeth hefyd ei ychwanegu at y fewnrwyd aelodau newydd.

## **1.6 Ymwybyddiaeth iaith**

Mae'r Ymgynghorwyr Iaith a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn parhau i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith achlysurol, gan fynd at dimau neu wasanaethau penodol yn ôl y galw. Mae'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith yn rhan o fodiwlau mandadol y Cyngor, ac ar hyn o bryd mae 1138 o staff wedi ei gwblhau. Mae hyn ychydig yn siomedig, ond mae gwaith corfforaethol yn cael ei wneud i wella cyfradd cwblhau'r modiwlau mandadol.

## **2. CWYNION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH**

### **2.1 CS1038 Arwydd "Aber Dwyryd", Maentwrog (Medi 2022):**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn am ddefnydd o enw anghywir ar arwydd wrth arosfan bws Maentwrog. Cadarnhawyd nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am osod y llun a'r enw "Aber y Dwyryd" ar yr arwydd, a bod y Cyngor wedi darparu lluniau newydd i Traws Cymru eu gosod ar yr arwydd digidol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

### **2.2 CS1026 Gohebiaeth gan y gwasanaeth Llyfrgelloedd (Mehfin 2022):**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y gwasanaeth llyfrgelloedd. Cadarnhaodd y gwasanaeth bod hyn wedi digwydd ond mai camgymeriad gyda'r system atebion awtomatig oedd yn gyfrifol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

### **2.3 CS1002 Gohebiaeth gwasanaeth Cyllid (Ebrill 2022) - dyfarniad terfynol heb ei dderbyn eto**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth gan y gwasanaeth Pensiynau yn Saesneg yn unig, ac hefyd wedi derbyn gohebiaeth Gymraeg lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bu ymchwiliad llawn i'r achos hwn. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am y sefyllfa yma o'r cychwyn, ac wedi esbonio bod y sefyllfa wedi codi o ganlyniad i gamgymeriad unigol, ac oherwydd bod yr amgylchiadau penodol dan sylw (gohebiaeth wedi ei anfon at deulu yn sgil marwolaeth unigolyn oedd yn derbyn pensiwn athrawon) yn gofyn i'r swyddog weithredu mewn ffordd wahanol i'r drefn arferol.

Derbyniwyd dyfarniad drafft ym mis Mawrth 2023, oedd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 5, 6 a 7. Mae hyn ar y sail

- bod y llythyr gwreiddiol wedi ei anfon yn Saesneg, ac nad oedd y Cyngor yn gwybod a oedd yr unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg,
- bod yr ail ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg yn cynnwys gwallau, oedd yn golygu ein bod wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac
- nad oedd y llythyrau anfonwyd yn cynnwys y datganiadau safonol sydd yn gwahodd y derbynnydd i ymateb yn Gymraeg, ac yn nodi y bydd y Cyngor yn ymateb yn Gymraeg.

Mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu hargymhell yn y dyfarniad drafft er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn llawn. Byddwn yn ystyried sut i ymateb i'r dyfarniad a'r camau gweithredu dros yr wythnosau nesaf.

## 2.4 CS102 Ymgynghoriad Ysgol Abersoch (Rhagfyr 2021) – dyfarniad terfynol heb ei dderbyn eto

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn nad oedd y Cyngor wedi dilyn prosesau ymgynghori priodol ac nad oedd wedi ymgynghori yn ddigonol gyda thrigolion lleol nac wedi ystyried yn ddigonol effaith y penderfyniad i gau Ysgol Abersoch ar y Gymraeg a'r gymuned. Cafwyd ymchwiliad llawn a thrylwyr i'r gwyn yma. Rydym wedi derbyn canlyniad drafft yr ymchwiliad, sydd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93, sef y safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ofyn cwestiwn penodol am effaith penderfyniad ar y Gymraeg wrth ymgynghori. Mae'r dyfarniad drafft yn nodi, serch hynny, na wnaeth y Cyngor fethu a chydymffurfio gyda Safonau 88, 89 a 90, sef y Safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i asesu ac ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Darparwyd swm sylweddol o dystiolaeth gan y Cyngor oedd yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau yn sgil y cyfnod ymgynghori oedd yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried yr effeithiau posib yn ofalus, ac mae'r adroddiad gan y Comisiynydd yn cydnabod bod y Cyngor wedi rhoi "ystyriaeth gydwybodol" i'r effeithiau.

Roedd y dyfarniad am fethu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93 yn seiliedig ar y ffaith na ofynnwyd y cwestiynau cywir wrth ymgynghori. Roedd yr adran addysg wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer y broses ymgynghori, ac nid oedd y canllawiau hynny wedi rhoi arweiniad ar sut i ddilyn gofynion y Cod a'r Safonau ar yr un pryd.

Nid oedd y Cyngor o'r farn bod peidio â gofyn y cwestiynau penodol am effaith ieithyddol wedi amharu ar allu unigolion i fynegi barn am effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, ac roedd nifer fawr o sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan drigolion lleol fel rhan o'r broses ymgynghori ac wedi eu hystyried wrth asesu effaith y penderfyniad, ond rydym yn derbyn bod methiant wedi bod o ran cydymffurfio gydag union ofyn y Safonau hyn.

Mae'r camau gweithredu sydd yn cael eu cynnig i gryfhau ein trefniadau wrth ymgynghori yn rai sydd eisoes ar y gweill neu eisoes wedi eu cyflawni gan y Cyngor.

### 3. CWYNIION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o	Esboniad a champau a gymerwyd
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol (Ionawr 2023)</b>	<b>1</b>	Cwyn nad oedd modd nodi eu bod yn ddysgwyr Cymraeg ar yr holiadur cydraddoldeb sydd yn cael ei ddefnyddio efo ymgynghoriadau cyhoeddus.	Mae'r cwestiwn safonol sydd yn cael ei ddefnyddio yn cyd-fynd gyda'r cwestiwn am allu ieithyddol sydd yn ymddangos yn y cyfrifiad. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gymharu data sydd yn dangos a yw ymatebwyr i ymgynghoriadau yn gynrychioladol o boblogaeth Gwynedd. Wedi trafod y cwestiwn gyda swyddogion perthnasol o'r tîm ymchwil, cyfathrebu a chydaddoldeb, penderfynwyd

			<p>treialu cwestiwn newydd, sydd yn gofyn am lefel gallu a sgiliau mewn ffordd wahanol, ac yn cynnwys opsiwn i nodi os yw rhywun yn ddysgwyr. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r ddau ymgynghoriad sydd yn treialu'r cwestiwn i weld a yw'r ffurf yma yn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol i ni.</p> <p>Anfonwyd ymateb i'r achwynydd yn diolch iddynt am ddod a'r mater i'n sylw ac yn esbonio'r newid rydym yn ei dreialu.</p>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol / Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>1</b>	<p>Cwyn bod polisi recriwtio'r Cyngor yn annheg wrth fynnu bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Roedd gan yr unigolyn nam clyw oedd yn golygu na allai ddeall na dysgu Cymraeg yn dda. Gan ei fod dan yr argraff bod y gofynion ieithyddol ar swyddi yn golygu bod angen bod yn rhugl, teimlai na allai ymgeisio am swydd efo'r Cyngor. Roedd wedi ei droi i ffwrdd o ganolfan ailgylchu'r Cyngor wrth geisio cyflwyno CV am nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. Teimlai felly bod y polisi yn gwahaniaethu yn ei erbyn.</p>	<p>Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr ymateb a gafodd yn y ganolfan ailgylchu, ac esboniwyd y polisi o ran gosod gofynion iaith ar swyddi.</p> <p>Edrychwyd ar un o'r swyddi oedd dan sylw gan yr achwynydd (swydd gyrru LGV) a chadarnhau mai lefel Sylfaen/Mynediad oedd y gofynion iaith ar gyfer y swydd honno.</p> <p>Roedd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhan o ymateb i'r gwyn hon hefyd gan fod yr achwynydd yn honni gwahaniaethu ar sail anabled.</p> <p>Mae cam gweithredu posib i'r gwyn yma i edrych ar y geiriad sydd yn cael ei ddangos mewn swydd ddisgrifiadau er mwyn sicrhau bod y gofynion yn glir ac yn ddealladwy i'r trigolion sydd yn ymgeisio am swyddi.</p>
<b>Byw'n Iach</b>	<b>1</b>	<p>Derbyniwyd cwyn am ddefnydd o'r Saesneg mewn gwersi nofio.</p>	<p>Trafodaethau wedi eu cynnal rhwng y tîm rheoli a'r swyddog datblygu nofio a chynllun gwaith wedi ei lunio ganddynt i fynd i'r afael a'r mater. Y sefyllfa wedi codi yn ddiweddar yn sgil problemau staffio arweiniodd at</p>

			<p>yr angen i benodi swyddogion nofio gyda'r cymwysterau cywir, ond nad oedd yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.</p> <p>Esboniad wedi ei anfon at yr achwynydd.</p>
<b>Cyllid</b>	<b>1</b>	Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg gan gwmni Excel, sydd yn darparu gwasanaeth casglu dyledion ar ran y Cyngor	<p>Amgylchiadau gan y cwmni (salwch staff a phroblemau recriwtio) wedi golygu nad oedd siaradwr Cymraeg rhugl ar gael ar y diwrnod y ffoniodd yr achwynydd oedd yn gallu delio efo'r alwad ac ateb ei ymholiad yn llawn yn Gymraeg. Mae'n rhan o'r cytundeb gyda'r cwmni bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac maent wedi gweithio yn galed i sicrhau'r gwasanaeth drwy recriwtio a hyfforddi gweithwyr lleol yn hytrach na recriwtio o dros y ffin. Er bod y gwasanaeth a ddarperir fel arfer yn ateb gofynion y cytundeb, mae'r gwasanaeth Cyllid yn ystyried a ellir dod a'r gwaith dan sylw yn fewnol i'r Cyngor yn y dyfodol.</p>

#### 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.